

Trosolwg

Wednesday, November 27, 2019 9:34 PM

ECAD6008-C: Arwain y Dysgu: Beth, sut a pham ydw i'n addysgu?

Teitl yr Aseiniad: Paratowch bortffolio (fel petaech yn ei rannu gyda mentor neu gyd-fyfyrwyd) sy'n cyfleu adfyfrio beirniadol ar gynnydd a wnaed o ran cynllunio a gweithredu tair egwyddor addysgegol.


Enw myfyriwr: Grace Goode

Rhif myfyriwr: 1600237

Llwybr: TAR Uwchradd (Addysg Grefyddol)


Dolen 'OneNote': https://uowtsd-my.sharepoint.com/:o/g/personal/1600237_student_uwtsd_ac_uk/EizJf3P0WPpGtGtKpiv0HtcBAYAMnz6M8768baaelx_JRQ?e=ZO6r00

Wednesday, November 27, 2019 9:35 PM




- ECAD6008-C Tudalen 2

seremonïau defod bywyd Cristnogol a Hindŵaidd megis Priodas a seremoni Edau Sanctaidd. Pwrpas hyn oedd dangos y dosbarth faint o wybodaeth maent wedi dysgu, ond hefyd i weld pa seremoni oeddent yn gwybod y mwyaf am er mwyn dewis seremoni i gynnwys yn eu tasg asesu.




2. Dyma un enghraifft o fy nhystiolaeth o asesu ar gyfer dysgu. Ar yr ail ar hugain o Dachwedd 2019 addysgais i wers adolygu ar Brofiad Crefyddol I flwyddyn 13. Ar ddechrau'r wers, gofynnais a gallen nhw disgrifio profiad crefyddol, dyma lun o'u hatebion (y 'post-its' bach), ar y chwith. Ac ar ddiwedd y wers, gofynnais a gallen nhw disgrifio profiad crefyddol ar ôl cael gwers ar y topig. Gan roddon nhw atebion llawer mwy manwl ar ddechrau'r wers, rhoddais 'post-its' fwy iddyn nhw. Pwrpas y ddwy dasg yma oedd dangos y dosbarth yn uniongyrchol sut gall eu hatebion cyfoethogi ar ôl un awr o adolygu nodiadau a thermâu allweddol.



3. Dyma'r trydedd enghraifft o asesu ar gyfer dysgu. Penderfynais ddefnyddio'r strategaeth yma er mwyn atgyfnerthu beth ddysgodd blwyddyn 13 yn y wers flaenorol ar brofiad crefyddol. Defnyddiais y strategaeth yma ar y chweched o Ragfyr 2019. Pwrpas hyn oedd atgofio'r dysgwyr o'r termau allweddol megis Tröedigaeth a hefyd i ddewis pa enghraifft sydd yn gywir am ba brofiad crefyddol.

9. Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd

Wednesday, November 27, 2019 9:35 PM



1. Am yr enghraifft gyntaf am gyfrifoldebau trawsgwricwlaidd, rydw i wedi dewis gwers blwyddyn 10, ar y chweched ar hugain o Dachwedd 2019. Ffocws y wers oedd credoau Islam tuag at erthyliad. Dechreuais y wers gan roi'r cyfle i flwyddyn 10 gwneud bach o ymchwil ac felly yn ffocysu ar y sgil o gymhwysedd digidol, a oedd yn seilio ar dopig y wers. Ar ôl roedd cyfle i'r disgyblion rhannu beth ddysgon nhw, a rhoddais i fach o ymchwil ychwanegol i ddyfnhau eu dealltwriaeth ac i newid unrhyw gamddealltwriaeth.


Amser	Gweithgareddau/Methodoleg/Cysyniadau Allweddol (Rôl yr Athro – gan gynnwys pwyntiau dysgu allweddol a chwestiynau allweddol)	Tasgau Disgyblion (Rôl disgyblion – gan gynnwys strategaethau gwahaniaethu, ymgysylltu ag asesu ffurfiannol a gwaith cartref)	Adnoddau (Gan gynnwys gofyniad lechyd a Diogelwch)
Cyfnod agoriadol (gyda chysylltiadau â dysgu blaenorol)	I agor byddaf yn dangos clip i esbonio Puja. Byddaf yn gofyn cwestiwn yr un iddynt am cynnwys y clip, pwrpas hyn yw i sicrhau bod y dyswyr wedi deall y clip neu cynnwys y clip.	Cymryd nodiadau wrth wyllo, i sicrhau bod y disgyblion yn cofio beth ydynt yn gwylio	
Addysgu a Dysgu Craidd	Yn ystod y cyfnod Addysgu a Dysgu Craidd, byddaf o gwmpas i sicrhau bod y dosbarth yn aros ar dasg. Byddaf hefyd yn hapus ateb unrhyw cwestiynau. Byddaf yn arwain y trafod e.e. gofyn i ddisgyblion penodol cynnig ffaith, i gadarnhau eu dealltwriaeth.	Cynnal ymchwil ei hun fel grŵp, ar eu topig. Bydd yna llyfrau iddyn nhw darllen, pecyn nodiadau a gall hefyd defnyddio eu ffonau symudol i ddarganfod unrhyw wybodaeth pellach. Ar ôl cwblhau eu hanner o'r diagram, mi fydd y dosbarth cyfan yn ailymuno i drafod beth darganfyddon nhw, yn ystod y cyfnod yma bydd cyfle i gymharu a gweld nodweddion tebyg. Ar ddiwedd y sesiwn o addysgu a dysgu craidd, bydd eu taflenni diagram Venn yn lawn.	Taflenni diagram Venn

Sesiwn Gloi	I gloi'r wers, byddaf yn gofyn i'r ddisgyblion dod lan, fesul un, i ychwanegu ffaith am addoliad Puja doeddwn nhw heb wedi ymchwilio. Pwrpas hyn yw i ddangos faint ydynt wedi bod yn gwrando, canolbwyntio ond hefyd faint ydynt wedi deall y wers.	Bydd rhaid i'r disgyblion ysgrifennu ffaith yr un ar y bwrdd gwyn, ond am y topig nad oeddwn nhw wedi ymchwilio. Pwrpas hyn i yw ddangos cynnydd y disgyblion.
--------------------	--	--

From <https://uowtsd-my.sharepoint.com/personal/1600237_student_uowtsd_ac_uk/Documents/Grace%20Goode%20PAP/PAP%201%20-%20Llanhari/Adran%203%20Cynllunio/Cynlluniau%20blwyddyn%2012/3.%202006-12-2019%20bl.%2012.docx>

2. Am yr ail enghraifft rydw i wedi atodi'r cynllun gwrs o wers blwyddyn 12 ar y chweched o Ragfyr 2019, ffocws y wers oedd Puja yn y Mandir ac yn y Cartref. Rydw i wedi uwchleuo'r darn trawsgwricwlaidd yn felyn. Roedd y wers yma yn cynnwys sgiliau a chyfrifoldebau Llythrennedd ond yn fwy penodol, llafaredd. Sgîl pwysig iawn mae rhaid datblygu trwy gydol eu hamser yn yr ysgol, gan yn helpu eu sgiliau gwaith grŵp, cydweithio a thrafod.

Tasg Rhifedd Dreidel

Nun	Hey
	
= Gwneud dim = Gwyrth ('Miracle')	= Cymryd hanner = Wedi digwydd
Gimmel	Shin
	
= Cymryd popeth = Mawr ('Great')	= Rhwch un mewn = Dyna ('There')

Cyfarwyddiadau:

- Bydd pawb yn dechrau â 10 tocyn.
- Ar ddechrau pob rownd, bydd pawb yn rhoi tocyn ychwanegol i'r 'pot' yn y canol.
- Bydd pawb yn troelli'r Dreidel, fesul un ac yn dibynnu ar beth mae'r Dreidel yn glanio, bydd rhaid dilyn y gyfarwyddiadau uwch ben.
- Ar unrhyw adeg, os does dim tocynnau yn y pot, bydd pawb yn ychwanegu un tocyn i'r pot.
- Os ydych chi allan o docynnau, rydych chi allan o'r gêm.
- Pan fydd un chwaraewr wedi ennill y tocynnau i gyd, bydd y gêm dros - nhw yw'r enillydd!

Tasg: Ysgrifennwch sut ydych chi wedi gael o beth eich ateb, ysgrifennwch nifer y tocynnau ar ôl pob tro.

- Ar ddechrau'r gêm Dreidel roeddi yna 5 o docynnau yn y pot. Glaniodd y chwaraewr cyntaf ar Shin. Cymerodd yr ail chwaraewr 3, felly ar beth glaniodd y Dreidel?
glanio ar Hey ✓
- Mae 3 person yn chwarae Dreidel, ar hyn o bryd mae yna 10 o docynnau yn y canol. Mae'r chwaraewr cyntaf yn glanio ar Nun, yr ail chwaraewr yn glanio ar Shin. Faint sydd ar ôl erbyn tro y trydydd chwaraewr?
11 o docynnau yn y pot ✓
- Mae 3 plant yn chwarae Dreidel, mae yna 48 o docynnau yn y canol. Mae'r chwaraewr cyntaf yn glanio ar Hey, yr ail yn glanio ar Hey eto. Faint sydd ar ôl erbyn tro y trydydd chwaraewr?
64 o docynnau yn y pot ellyson y Kibitz ✓

- Mae 4 plant yn chwarae Dreidel, mae yna 54 o docynnau yn y canol. Mae'r chwaraewr cyntaf yn glanio ar Gimmel. Mae'r ail chwaraewr yn glanio ar Shin, mae'r trydydd chwaraewr hefyd yn glanio ar Shin. Faint o docynnau sydd ar ôl erbyn tro y chwaraewr olaf?
ellyson y chwaraewr olaf 64 o docynnau yn y pot ✓
- Mae teulu o 5 yn chwarae Dreidel. Ar hyn o bryd, mae yna 16 o docynnau yn y pot. Glaniodd y Dreidel ar Nun dwy waith, Hey, Shin a Nun eto. Faint o docynnau sydd yn y pot ar hyn o bryd?
cel hysp o bryd 9 docynnau yn y pot ✓
- Mae grŵp o ffrindiau lldewig yn treulio'r nos yn chwarae'r Dreidel. Erbyn yr pedwerydd rownd nifer y tocynnau yw 32. Am bedwar tro glaniodd y Dreidel ar Shin. Ar y bumped tro glaniodd ar Hey. Felly faint o docynnau sydd ar ôl?
19 o docynnau sydd ar ôl ✓

TASG YCHWANEGOL:

- Beth yw neges y gêm Gimmel? (Deddfwrddwch ar gyfithiadau y Dreidel).
yn dechrau'r gêm, yn dechrau'r gêm, yn dechrau'r gêm, yn dechrau'r gêm ✓
- Mae rhai o blant lldewig yn cwyno bod y gêm yn gallu fod yn ddiffas. Sut allwch chi osgoi hyn gan addasu'r gêm? Mae rhaid sicrhau eich bod yn cadw at egwyddorion y gêm, e.e. cyfithiadau symbolau.
yn dechrau'r gêm, yn dechrau'r gêm, yn dechrau'r gêm, yn dechrau'r gêm ✓



3. Dyma enghraifft o dasg rhifedd blwyddyn 8 o'r 6ed o Ragfyr 2019. Ffocws y wers oedd Hanukkah a nod y dasg oedd dangos i'r disgyblion sut mae'r gêm Dreidel Iddewig yn gweithio, gan gynnwys rheolau'r gêm i gefnogi wrth ateb y cwestiynau. Er mwyn gwahaniaethu ond hefyd i atgyfnerthu neges yr ŵyl Hanukkah a'r gêm Dreidel.


4. Cymysgedd o Ddulliau

27 November 2019

19:48

- Mae addysgu a dysgu da yn golygu defnyddio cymysgedd o ddulliau gan gynnwys y rheini sy'n hybu sgiliau datrys problemau, sgiliau creadigol a'r gallu i feddwl mewn modd beirniadol.





1. Yn yr enghraifft yma, o wers blwyddyn 8 ar y chweched o Ragfyr, 2019. Mae'r dasg yma yn hybu sgiliau creadigrwydd y disgyblion. Ffocws y wers oedd Hannukah, gofynnais i'r disgyblion creu bwrdd stori ar ôl dysgu am greddau ac ymarferion Iddewig yn ystod Hannukkah.
Pwrpas y dasg yma oedd cael y disgyblion i ddefnyddio beth ydynt wedi dysgu yn barod am y topig, ac i ddewis yr elfennau pwysicach i gynnwys ar y bwrdd stori.

Taflen Hunan Werthuso'r Infograffeg	
Hunan Werthuso: - Rydw i'n falch o ... <i>bod yn llawer o llaw a llawer o ddau sydd yn personol</i> - Tro nesaf, byddaf yn ... <i>tro nesaf a phethau</i> - Y peth mwyaf anodd oedd ... <i>Dod o hyd i'r gwybodaeth ac cyfoethu</i>	Asesu Cyfoedion: - Dylet ti fod yn falch o ... <i>Y gwybodaeth perthnodedig</i> - Fy hoff peth yw ... <i>Y peth llir lach!</i> - Dy gam nesaf yw ... <i>Forthau ~~gwrthod~~ gwrthod a ystoddegau</i>
Meini prawf Lwddiant:	Llofnod: <i>1</i> Dyddiad: <i>3/12/19</i>

Taflen Hunan Werthuso'r Infograffeg

Hunan Werthuso:

- Rydwi i'n falch o ...
o'r ffordd, main chrych e e
y paled llawr, y ffordd i'r ffordd
est.
- Tro nesaf, byddaf yn ...
ychwanegu ystodog, ddyddion
a siarllaw.
- Y peth mwyaf anodd oedd ...
Llawr foth dim.

Meini prawf: 100% 75% 50%

Llwfddiant:

Asesu Cyfoedion:

- Dylet ti fod yn falch o ...
Hawar, Hwariaw ac bod yna
Hawar a gwybodaeth a y teitl
fawr.
- Fy hoff peth yw ...
y Hwariaw.
- Dy gam nesaf yw ...
Hwariaw gubanol.

Llofnod: Mawr Jenkins

Dyddiad: 3 / 12 / 19

Taflen Hunan Werthuso'r Infograffeg

Hunan Werthuso:

- Rydwi i'n falch o ...
Mae yna Hwariaw a Hwariaw
Mae Hwariaw yn cwl.
- Tro nesaf, byddaf yn ...
Gwariaw e mwy fel infograff yn lle
foster.
- Y peth mwyaf anodd oedd ...
Ffwrdd gwybodaeth
Gwariaw gwybodaeth.

Meini prawf: 100% 75% 50%

Llwfddiant:

Asesu Cyfoedion:

- Dylet ti fod yn falch o ...
y gwybodaeth yn perfformio ac y
cylchgron.
- Fy hoff peth yw ...
y Hwariaw Sgild yn perfformio.
- Dy gam nesaf yw ...
rwyf mwy o ystodog.

Llofnod: Mawr Jenkins

Dyddiad: 3 / 12 / 19

2. Rydw i wedi penderfynu cynnwys enghraifft o waith blwyddyn 7 ar yr ail o Ragfyr, ffocws y wers oedd gorffen a gwerthuso'r infograffeg.

Roedd y dosbarth wedi treulio'r ddwy wers gyntaf yn cwblhau infograffeg ar gynhesu byd eang, roedd nifer wedi gorffen a dylai'r gweddill wedi cwblhau'r infograffeg o fewn y wers. Dyma rhai enghreifftiau o daflenni hunan werthuso a gwerthuso cyfoedion mae'r dasg yma yn hybu sgiliau i feddwl yn feirniadol. Pwrpas y dasg yma oedd ysgogi'r gallu i feddwl yn feirniadol, ond hefyd i allu adnabod beth sydd yn dda am infograffeg a ble gellir gwella.

☾ ★ Sut allwn ddehongli'r ddysgeidiaeth isod wrth ystyried erthyliad?

"Os ydy unrhyw un yn lladd person arall mae fel petai wedi lladd y ddynoliaeth gyfan, ac os ydy unrhywun yn achub bywyd person mae fel petai wedi achub y ddynoliaeth gyfan."

Qur'an 5:32

pawb yn anghyfurio os ydych chi'n lladd un person. Anghyfurio dan unrhyw amod pawb mewn un cymmerfelly fydd lladd y fabi yn effeithio ar bawb.

☾ ★ Sut allwn ddehongli'r ddysgeidiaeth isod wrth ystyried erthyliad?

"Os ydy unrhyw un yn lladd person arall mae fel petai wedi lladd y ddynoliaeth gyfan, ac os ydy unrhywun yn achub bywyd person mae fel petai wedi achub y ddynoliaeth gyfan."

Qur'an 5:32

Isod mae'n iawn i cael erthyliad aml nid yn iawn i lladd oeddyn/plenty. Sydd yn llyso ar y ddaear.

Arwyddocâd y dyfyniad yw...

"Os ydy unrhywun yn lladd person arall mae fel petai wedi lladd y ddynoliaeth gyfan, ac os ydy unrhywun yn achub bywyd person mae fel petai wedi achub y ddynoliaeth gyfan."

- Qur'an 5:32

Peidiwch â lladd eich plant oherwydd tlodi; byddwn ni'n darparu ar eich cyfer chi ac ar eu cyfer nhw.

- Qur'an 6:151

Yn yr oes Muhammad, un rheswm am gymryd bywyd babi oedd materion ariannol.

3. Dyma enghraifft o wers blwyddyn 10 ar y pumed ar hugain o Dachwedd 2019. Ffocws y wers oedd ar gredoau Mwslemiaid Erthyliad. Yn y dasg darllen a deall yma, rhoddais dau ddyfyniad i'r disgyblion, yna roedd rhaid i'r disgyblion dehongli'r dyfyniadau i weld

sut gall y grefydd dehongli'r dyfyniad i weld beth ydynt yn dweud am erthyliaid. Pwrpas y dasg yma oedd cael y disgyblion i ddechrau meddwl yn feirniadol.

Adlewyrchiad Beirniadol

Wednesday, November 27, 2019 9:36 PM

Mi fydd yr aseiniad yma yn trafod ac adfyfyrio'r defnydd o dri allan o'r deuddeg Egwyddor Addysgegol Graham Donaldson, 2015. Mae enghreifftiau ar dudalennau arall o'r 'OneNote' i gefnogi'r hyn sydd yn cael ei ddweud. Bydd ffocws yr aseiniad yn anelu at y cynnydd sydd yn digwydd trwy'r enghreifftiau ond hefyd, y cynnydd sydd nawr yn gallu digwydd ar ôl cymryd y lluniau a'r gwersi addysgais. Mae'r aseiniad yn ffocysu ar y pedwaredd egwyddor "Mae addysgu a dysgu da yn golygu defnyddio cymysgedd o ddulliau gan gynnwys y rheini sy'n hybu sgiliau datrys problemau, sgiliau creadigol a'r gallu i feddwl mewn modd beirniadol" (tud. 65, Donaldson). Yn syml, mae'r egwyddor yma yn edrych ar ddatblygu'r defnydd o ddulliau sydd yn hybu'r disgyblion i feddwl yn feirniadol sydd yn sgil hynod o bwysig gan ystyried Addysg Grefyddol yw'r pwnc ble mae rhan fwyaf o'r enghreifftiau yn cymryd lle. Yr ail egwyddor mae'r aseiniad yn ffocysu ar yw'r seithfed egwyddor, "Mae addysgu a dysgu da yn golygu dilyn egwyddorion asesu ar gyfer dysgu" (tud. 67, Donaldson). Mae'r egwyddor yn canolbwyntio ar effeithlonrwydd dulliau dysgu, maent yn gyfle sydd yn darparu'r athro efo syniad o faint mae'r disgyblion wedi neu heb ddeall neu gamddeall, o ganlyniad mae'r athro yn gallu rhoi adborth cyson a rheolaidd i'i ddisgyblion yn dibynnu ar eu hanghenion. Y trydedd egwyddor mae'r aseiniad yn ffocysu ar yw'r nawfed egwyddor, "Drwy addysgu a dysgu da bydd y Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd, gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, yn cael eu cryfhau'n gyson a chyfleoedd yn cael eu darparu i'w harfer" (tud. 68, Donaldson). Mae'r egwyddor yma yn canolbwyntio ar y defnydd o Lythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol ar draws y pynciau i gyd. Pwrpas manwl yr egwyddor yma yw ceisio dod â'r sgiliau yma mewn i'r gwersi yn naturiol fel ei fod yn llifo ac nid fel elfen ychwanegol. I gloi'r aseiniad, mi fydd cyfle i awgrymu unrhyw argymhellion ar gyfer datblygiad pellach.

Yn gyntaf, bydd yr aseiniad yn edrych ar asesu ar gyfer dysgu (AaGD), diffiniad syml gan Black, 2003 yw'r math o asesiad sydd yn helpu'r proses o ddysgu os yw'n darparu gwybodaeth fel adborth gan yr athrawon, hunan asesu neu asesu cyfoedion, i wella'r addysgu a gweithgareddau dysgu. Felly asesiad ffurfiannol yn y dosbarth sydd yn rhoi adborth uniongyrchol. Gan gyfeirio yn benodol at daflen gwaith blwyddyn 8, ble defnyddion nhw oleuadau traffig i hunan asesu eu gwaith grŵp. Mae Gardner (2012) yn awgrymu dylai'r strategaeth goleuadau traffig cael ei defnyddio o fewn gwersi'r disgyblion er mwyn cefnogi gwaith ei gilydd er enghraifft i'r rhai ar wyrdd i gefnogi'r rhai ar oren yn ogystal ag atgyfnerthu beth ydynt yn gwybod yn barod, tra bod yr athro yn ffocysu yn benodol ar y rhai sydd ar goch. Efallai roedd y dasg yma yn ddi-werth, nad oedd y disgyblion yn gallu gwella eu sgiliau gwaith grŵp yn uniongyrchol neu cael cymorth yn uniongyrchol, serch hynny, y gobaith yw, gall y disgyblion dysgu o'r profiad a thro nesaf byddwn nhw yn gweithio yn fwy effeithiol wrth weithio fel grŵp.

Yn symud ymlaen i'r enghraifft nesaf, y 'post-its' blwyddyn 13, mae hyn yn strategaeth ddefnyddiol yn ôl Weisenberg (1997, tud. 339) "Simple enough not to intimidate students." Mae hyn oherwydd nad yw'r 'post-its' yn gadarn, nad yw'r un peth ag ysgrifennu yn eu llyfrau neu lyfyrnau, ond yn fwy cadarn na bwrdd gwyn bach. Mae 'post-its' yn wahanol oherwydd, weithiau nad oes rhaid dangos eu cyfoedion – er hynny, yn yr achos yma, o ddosbarth o bedwar disgybl blwyddyn 13, roedd y disgyblion i gyd yn fwy na hapus rhannu beth ysgrifennon nhw. Cafodd y strategaeth yma ei ddefnyddio yn y sefyllfa er mwyn cefnogi dealltwriaeth ei gilydd, roedd y dosbarth yn ail ymweld â thopig o flwyddyn 12 felly yn naturiol byddent yn cofio pethau gwahanol. Mae'r strategaeth yma yn dilyn yr ymagwedd adeiladol, sef

egwyddor sydd yn dweud bod disgyblion yn ennyn dealltwriaeth trwy aifodelu ac ehangu ar gysyniadau sydd yn barod yn bodoli. Felly rôl yr athro oedd adeiladu o'r cysyniadau yma gan gyflwyno'r wybodaeth newydd, angenrheidiol, mae hyn yn glir o'r datblygiad ar ddechrau'r wers a diwedd y wers. Ond dydy'r strategaeth yma ddim yn fesuradwy, felly nad oes wir ffordd o fesur y dull yma, o ganlyniad yn anodd rhoi adborth cadarn i'r disgyblion.

Er mwyn osgoi'r broblem o fesuradwyedd yn yr AaGD yma, wnes i greu cwis ar 'Quizizz', fel gallwch gweld yn y trydedd enghraifft. Mae'r wefan yn galluogi athrawon creu cwis digidol, gall y disgyblion cael mynediad trwy ddolen syml, does ddim amseredd arni ac mae pob disgybl ar gwestiwn gwahanol felly yn osgoi'r tebygrwydd o'r disgyblion yn twyllo. Ar ddiwedd y cwis mae yna gyfle i'r athro yn unig gweld canlyniadau'r disgyblion trwy siart neu graff, gall hefyd cymharu canlyniadau o gwis arall i weld cynnydd y disgyblion. Mae nifer yn gwerthfawrogi'r defnydd o Quizizz yn y dosbarth, "...Quizizz are excellent resources for reviewing material learned, and they are popular with students" (Eartherton, 2016, tud. 9). Ond, mae rhaid cydnabod wrth ychwanegu elfennau digidol i'r AaGD, rhaid sicrhau rydych ond yn defnyddio'r dull er mwyn gwella'r profiadau dysgu a chwrdd ag amcanion dysgu sydd yn barod yn bodoli. Mae dal rhaid pwysleisio cwrdd ag anghenion dysgu pob disgybl yn y dosbarth a bod dilyniant mewn dysgu.

Mae rhaid dod mewn i'r arfer o gymysgu'r strategaethau dysgu, gan gynnwys sgiliau trawsgwricwlaidd, gan sicrhau dilyniant mewn dysgu. Yn ôl Carrello (2016) efo'r cydbwysedd cywir o dechnoleg yn yr ystafell ddosbarth, byddai'r disgyblion yn fwy tebygol o ddargadw beth ddysgon nhw. Gall hyn cyfeirio at yr enghraifft gyntaf o gyfrifoldebau trawsgwricwlaidd. Tasg y disgyblion oedd ymchwilio am ddysgeidiaeth Islam ar erthyliad, felly yn ôl Carrello bydd y disgyblion yn fwy tebygol o ddargadw beth ddysgon nhw i gymharu â gwers efo dysgu uniongyrchol. Mae'r erthygl yn sôn am addysg oedolion, felly efallai ei fod yn fwy perthnasol i addysg oedolion ac nid addysg o fewn ysgol uwchradd? Efallai bod hynny'n wir, i raddau, ond mae addysg yn broses gydol oes, felly dal yn berthnasol i ddisgyblion ysgol uwchradd. Serch hynny, nad ydy'r darn wedi cael ei ysgrifennu ar ddisgyblion ysgol uwchradd felly yn anodd i gymhwyso yn ddibynadwy.

O fewn pob pwnc, ond yn enwedig Addysg Grefyddol mae yna nifer fawr o gyfleoedd i ymarfer sgiliau llythrennedd ond yn fwy penodol, sgiliau llafaredd. Fel gwelir yn yr ail enghraifft o'r cynllun gwers, a'r pwyslais ar drafod wrth leisio a strwythuro eu barn. Yn ôl Sattes a Walsh (2015) drafodaethau sydd yn cael ei gyrru gan y disgyblion yn un ffordd o gynyddu cyfrifoldeb y disgyblion dros ddysgu ei hun. Er enghraifft mae'r disgyblion yn symud y drafodaeth ymlaen wrth ofyn cwestiynau a defnyddio tystiolaeth i gymryd sylwadau wrth wrando ar sylwadau eu cyfoedion. Maent hefyd yn nodi, nad oes ffordd gywir i gynnal trafodaeth sydd yn cael ei arwain gan ddisgyblion ond wedyn yn ymhelaethu i esbonio sut i gynnal trafodaeth er enghraifft i ddechrau efo cwestiwn, sydd yn codi nifer o gwestiynau yn ei hun. Serch hynny, bwriad y llyfr yma a llyfr Hess yw helpu athrawon dysgu a hybu sut i gynnal trafodaeth effeithiol a safonol, ond yn fwy perthnasol yn llyfr Hess am faterion dadleuol. Fel dwedodd Robinson ac Aronica (2015, tud. 107) yn y llyfr *Creative Schools* "... expert teachers provoke questions in students that they are inspired to explore them...". Ac fel bydd Sattes a Walsh yn cytuno, dyma fantais o gael y disgyblion i gynnal trafodaethau ei hun.

Defnyddiais y strategaeth yma o ddarlunio bwrdd stori fel ffordd o AaGD oherwydd ei fod yn cefnogi'r ddysgu. Ond mae'r strategaeth yma yn cefnogi'r trydedd egwyddor dewisiad gan ei fod yn hybu sgiliau creadigol. Mae Robinson ac Aronica yn pwysleisio'r cydbwysedd sydd ar athrawon i ddefnyddio cronfa eang o agweddau i addysgu, gan gynnwys gweithgareddau grŵp. Wrth roi'r cyfle i'r disgyblion i fod yn greadigol, fel dwedodd Guilford (1958) mae Celf yn darparu disgyblion â'r cyfle i gael rhyddid ac i fod yn greadigol. Felly wrth ddod â chelf mewn i bynciau eraill ac ar draws yr ysgol. Mae Guilford (1958) yn rhoi'r cyfrifoldeb ar yr athrawon i wyllo am

gyfleoedd i'r plant fod yn greadigol ac i ddarganfod y creadigrwydd yn y byd. Er cafodd hyn ei ysgrifennu yn 1958, mae rhaid ystyried beth sydd yn cael ei cydnabod. Fel awgrymodd Kaufman a Sternberg (2010) ni ddylai potensial creadigol cael ei weld arwahan i weddill y cwricwlwm, felly beth ddwedodd Guilford yn 1958 dal i fod yn berthnasol ac i gefnogi hyn yn bellach, dwedodd Guilford (1958) dylai celf cael ei ystyried fel agwedd o fywyd yn gyffredinol, ac nid pwnc yn yr ysgol. Mae defnyddio celf ar draws yr ysgol a chreu cysylltiadau rhwng celf a bywyd pob dydd sydd yn bwysig i ddatblygiad cyfannol y disgyblion.

Mae'r ail enghraifft yn berthnasol i'r trydedd egwyddor gan ei fod yn hybu sgiliau beirniadol. Maent yn strategaeth ddefnyddiol yn ôl Harris a Brown (2013) gan ei fod yn cynnwys y disgyblion yn y proses o asesu yn weithredol, felly yn helpu nhw deall y fanyleb er mwyn beirniadu gwaith ei hun. Mae Black et al (2002) yn cytuno â hyn, bod asesu cyfoedion yn gydran bwysig o hunan asesu. Maent yn ymhelaethu, i awgrymu efallai bod asesu cyfoedion yn fwy gwerthfawr na sylwadau o'r athrawon. Gallaf weld sut gall hyn fod yn wir, i raddau, ar rai adegau, ond nid trwy'r amser. Mae rhaid cydnabod effaith yr athrawon ar ddysgu'r disgyblion, ond hefyd pwysigrwydd yr effaith yma, fel dwedodd Robinson ac Aronica (2015, tud. 109) bod athrawon yn fwy na hyfforddwyr, "they are mentors and guides who can raise the confidence of their students."

Mae'r trydedd enghraifft hefyd yn ddull sydd yn hybu sgiliau beirniadol y disgyblion. Rhoddais ddyfyniad ar lafar i gael y disgyblion i ddechrau meddwl a thrafod, ac yna rhoddais un ar bapur i ysgrifennu eu hateb lawr. Mae addysgu disgyblion i ddarllen ac ysgrifennu yn un peth, hyd yn oed efo'r wybodaeth fanwl gywir, mae addysgu'r disgyblion y sgiliau gwybyddol i ddeall a chysylltu syniadau yw'r cam angenrheidiol neu bydd y sgiliau yma yn ddi-werth, yn ôl McGregor (2007). Felly maent yn glir pam bod y sgiliau yma yn bwysig, y sgiliau sydd yn hybu creadigrwydd ond yn fwy, i feddwl yn feirniadol a sgiliau sydd yn helpu syntheseiddio ystyr yn hanfodol i'r disgyblion, yn enwedig am eu bywyd ar ôl gadael yr ysgol. Mae llyfr McGregor yn dangos yn glir pa mor bwysig yw'r sgiliau yma gall y plant ddatblygu o dasgau fel yr un gosodwyd.

Mae'r cynnydd a'r datblygiad am yr egwyddor gyntaf yn glir, efallai nid o'r strategaethau ond effeithlonrwydd y strategaethau. Wrth ddysgu'r dosbarthiadau yn fwy aml, mae hefyd yn haws er mwyn cynllunio tasgau mwy effeithiol AaGD, enghraifft sydd yn cefnogi hyn yw'r trydedd enghraifft o flwyddyn 13 yn gwneud y cwis 'Quizizz', fel tasg dechrau am beth ddysgon nhw yn y wers flaenorol a sut mae'r wybodaeth hynny yn berthnasol i'r wers. Roedd y trydedd enghraifft o'r cwis yn dilyn y wers efo'r ail enghraifft â'r post its. Yn yr enghraifft gyntaf, roeddwn i wedi gofyn i'r dosbarth nodi pump ffaith o'r wers flaenorol, nad oeddwn i'n teimlo bod hyn mor effeithiol, nad oedd wir ffordd o sicrhau cywirdeb cyn dechrau eu tasg asesu. Felly wrth gynllunio'r ail enghraifft, roedd rhaid ystyried effeithlonrwydd y dasg a sut gallaf sicrhau cywirdeb. Ar ddechrau'r wers rhannodd y disgyblion sut bydden nhw yn diffinio term, felly roedd cyfle fan hyn i newid unrhyw camddeall o gwmpas topig y wers ond hefyd cwestiynu eu diffiniadau er mwyn profi eu dealltwriaeth. Yna, ar ddiwedd y wers, cafon nhw union yr un dasg, er mwyn gweld sut oeddent nhw wedi datblygu eu diffiniadau, rhannodd y disgyblion eu hatebion eto. Mae'r cynnydd yn llwyddiannus, yn ôl Black et al (2003) dyma ffordd dda o gefnogi'r ddysgu, gan fod y disgyblion yn asesu atebion eu cyfoedion ar lafar, ond hefyd bod cwestiynu yn rhan angenrheidiol o rôl yr athrawes.

Mae yna le am gynnydd yn yr adran trawsgwricwlaidd. I ddechrau, efo rhifedd, Addysg Grefyddol yn bwnc anodd i gysylltu â rhifedd. Yn ôl Donaldson (2015) *Dyfodol Llwyddiannus*, mae rhaid i'r athrawon cydnabod y cyfleoedd a'r ffordd orau o ddefnyddio'r sgiliau trawsgwricwlaidd ac yn pwysleisio'r angen ei fod yn briodol. Felly, yn dweud nad oes wastad lle i rifedd ym mhob gwers, ym mhob topig. Felly

pob tro mae athro o unrhyw bwnc yn creu tasg rhifedd, llythrennedd neu gymhwysedd digidol, rhaid ystyried a yw'r dasg yn datblygu gwybodaeth neu ddealltwriaeth y disgybl am y topig a phwnc. Rhifedd, yn ôl Geiger (2016) yw'r gallu i wneud mathemateg yn berthnasol i fywyd pob dydd. Mae nifer o ddisgyblion yn ofni Mathemateg, "maths anxiety could be fuelling a numeracy skills crisis" (Cornish a Richardson, 2019). Trwy weithredu rhifedd mewn i bob pwnc, gall geisio lleihau neu o leiaf cefnogi disgyblion trwy eu hofn, ac i ddangos sut mae rhifedd a mathemateg yn ddefnyddiol o fewn bywyd pob dydd. Gan ddweud hynny, gall hyn tanio'n ôl am rai disgyblion, gall rhai ag ofn sydd yn rhwystro eu cynnydd mewn Mathemateg dechrau effeithio ar bynciau eraill. Fel athrawes mae gen i'r cyfrifoldeb o wella fy sgiliau o weithredu'r cyfleoedd i'r disgyblion ymarfer eu sgiliau trawsgwricwlaidd ac i gefnogi fy nisgyblion yn ystod eu haddysg gyfannol.

Mae'r sgiliau sydd yn cael ei thrafod, yn enwedig gan gyfeirio at sgiliau beirniadol, er enghraifft sgiliau beirniadol a chreadigol. Mae rhaid adnabod, fel athrawes yr angen i ddatblygu sgiliau'r disgyblion. Mae hefyd rhaid cefnogi'r disgyblion yn datblygu o dderbyn gwybodaeth yn oddefol, i fod yn fwy gweithgar yn dysgu ei hun (Gardner, 2012). Rydw i wedi adnabod yr angen i hybu'r sgiliau gan ddefnyddio cymysgedd o sgiliau er mwyn hybu'r sgiliau yma. Er enghraifft, wrth ddarlunio bwrdd stori, mae'r disgyblion yn cymryd y cyfrifoldeb o sut ydynt eisiau cyfleu beth ddysgon nhw yn y wers, beth sydd angen cynnwys a beth sydd ddim. Mae sgiliau beirniadol hefyd mor bwysig, mae sgiliau beirniadol yn berthnasol. Gall sgiliau beirniadol digwydd o fewn unrhyw wers efo'r cyfleoedd cywir o'r athrawon. Rydw i wedi dangos dwy enghraifft o hunan asesu ac asesu cyfoedion, yr enghraifft cyntaf am asesu ar gyfer dysgu, ac yr ail enghraifft o hybu sgiliau. Mae hyn hefyd yn dangos cynnydd, o'r tro cyntaf ble defnyddiais oleuadau traffig i asesu gwaith sydd yn gyfyngiad i rai, efallai ni fydd disgybl yn labeli eu gwaith yn goch, oren na gwyrdd ond rhywle yn y canol. Ond efallai gan orfod dewis, maent yn defnyddio sgiliau beirniadol? Serch hynny, yr ail dro defnyddiais hunan asesu ac asesu cyfoedion, roedd yna fwy o bwrpas tu ôl i'r dasg oherwydd roedd gan y disgyblion ail gyfle i wneud y poster oeddent nhw yn asesu. Felly mae rhaid defnyddio'r taflenni asesu er mwyn cefnogi wrth roi cynnig arall arni. Mae hunan asesu yn elfen hanfodol i'r broses o ddysgu oherwydd gall y disgyblion ond cyflawni targed os ydynt yn deall y targed a sut i gyflawni (Gardner, 2012). Gwelir y cynnydd yn enwedig rhwng yr ail enghraifft a'r trydedd enghraifft, efo'r datblygiad wrth ddefnyddio tasgau sydd yn hybu sgiliau beirniadol.

Er mwyn datblygu fy ngweithred o dasgau AaGD o fewn fy ngwersi, mae Eartherton, 2016 yn awgrymu wrth ddefnyddio gwefannau megis *Quizziz* gallaf grwpio'r disgyblion a chreu cwis digidol eu hun ar dopig y gwersi diwethaf, wedyn bydd cyfle gwerthuso cwis ei gilydd, gan greu dysgu dyfnach. Wrth gynnal y dasg yma, bydd gan y disgyblion cyfle i ymarfer nifer o sgiliau, gan gynnwys gwaith grŵp, mi fydd y dasg yma yn un sydd yn hybu sgiliau creadigol a beirniadol felly yn taro nifer o Egwyddorion Addysgegol Donaldson, 2015. Efallai ni fydd hyn yn bosib gwneud efo dosbarth bach fel dosbarth blwyddyn 13, ond yn enwedig efo dosbarth mwy gellir gweld i fod yn dasg lwyddiannus. Maent yn gyfle i brofi a herio eu dealltwriaeth ond hefyd ymarfer sgiliau gwaith grŵp gan werthuso gwaith cyfoedion, fel dwedodd yn gynharach, mae'r gallu yma yn cynyddu diddordeb y disgyblion yn y gwersi yn ogystal â'u dealltwriaeth o'r meini prawf llwyddiant, gan wella eu sgiliau cyfathrebu (Harris a Brown, 2013).

Y datblygiad rydw i yn barod wedi dangos am ddatblygu'r defnydd o elfennau trawsgwricwlaidd o fewn fy nghwers yw dechrau cynnwys QR code wrth ofyn i'r disgyblion cynnal ymchwil, fel gallwch weld yn yr enghraifft gyntaf yn ngyfrifoldebau trawsgwricwlaidd. Wrth weithredu'r strategaeth yma, mae'r disgyblion dal yn cael y cyfle i gymryd cyfrifoldeb dros ddysgu ei hunain, ond mae'r sgaffald yna i gefnogi'r dosbarth i gyd i geisio sicrhau bod y disgyblion yn derbyn y wybodaeth addas sydd angen arnyn nhw. Serch hynny, nad ydy rhoi'r wybodaeth yn ddigon (McGregor, 2007), felly dyna pam mae hi'n bwysig i beidio ond rhoi'r wybodaeth berthnasol i'r

disgyblion, ond creu her iddyn nhw, er mwyn magu sgiliau trwy gynllunio tasgau i gymhwyso beth ddysgon nhw.

Er mwyn datblygu fy nefnydd o ddulliau sydd yn hybu sgiliau creadigol a beirniadol, gallaf ddefnyddio mwy o ddulliau sydd yn hybu sgiliau beirniadol. Wrth ysgogi'r disgyblion i fod yn feirniadol, maent yn gwrthio nhw i feddwl yn ddyfnach, i gwestiynu beth ydynt yn gwybod yn barod, gallent wneud hyn wrth asesu cyfoedion. Gan ei fod, eto, yn rhoi'r cyfrifoldeb i'r disgyblion am addysg ei hun, ac mae'r athro yna i gefnogi. Wrth hybu sgiliau creadigol, rhaid cofio nad ydy pob disgybl yn gyfforddus pan ydynt yn cymryd rhan mewn tasg sydd yn hybu sgiliau creadigol, mi fydd nifer o ddisgyblion yn teimlo o dan bwysau gan esbonio eu syniadau i'w cyfoedion oherwydd efallai mi fydd eu cyfoedion yn anghytuno, fel esboniodd McGregor (2007). Nad ydy hyn yn wir am bob disgybl, ond yn rhywbeth i ystyried. I gloi, rydw i wedi creu cynnydd fel darpar athro fel dangosir trwy'r traethawd a'r lluniau dangosais. Er hynny, mae dal digon o le i wella a chadw creu cynnydd. Y peth rydw i wedi ffocysu at wella'r mwyaf yw sut ydw i yn creu'r cwis. Gall creu cwis yn lle ateb cwis hybu a chefnogi fwy o sgiliau yn lle ond ateb y cwis.

Rhestr Cyfeirnodau

Wednesday, November 27, 2019 9:36 PM

1. Black, P. et al (2002) *Working Inside the Black Box: Assessment for Learning in the Classroom*, Llundain: Kings College: Department of Education and Professional Studies.
2. Black, P. et al (2003) *Assessment for Learning: Putting it into Practice*, Maidenhead: Open University Press.
3. Booth, D. (2008) *It's Critical! Classroom Strategies for Promoting Critical and Creative Comprehension*, Ontario: Pembroke Publishers Limited.
4. Carrello, A. (2018) Bring Technology into the Classroom, Training; Minneapolis, cyf. 55, arg. 5, tud. 16.
5. Cornish, J a Richardson, D. (2019) *How can we tackle maths anxiety?*, Tes. Ar gael yn: <https://www.tes.com/news/how-can-we-tackle-maths-anxiety> (Dyddiad Mynediad: 15/12/2019)
6. Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru*. Caerdydd: Hawlfraint y Goron. Ar gael yn: <https://gweddiill.gov.wales/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-cy.pdf> (Dyddiad Mynediad: 15/12/2019).
7. Dweck, C. (2017) *Mindset* (revised edition), Llundain: Robinson.
8. Eartherton, T. (2016) *Transform your Teaching with Technology*, Techniques: Classroom Connection, cyf. 19, arg. 4. Tud. 8-9.
9. Gardner, J. (2012) *Assessment and Learning*, ail argraffiad, Llundain: SAGE.
10. Geiger, V. (2016) *Teachers as Designers of Effective Numeracy Tasks*, Mathematics Education Research Group of Australasia, tud. 254-261.
11. Guilford, J. P. (1958) *Can Creativity be Developed?*, Art Education, Cyf. 11, arg. 6, tud. 3-7, 14-18.
12. Harris, L a Brown, G. (2013) *Opportunities and obstacles to consider when using peer- and self-assessment to improve student learning: Case studies into teachers' implementation*, Teaching and Teacher Education, cyf. 36, tud. 101-111.
13. Hess, D. (2009) *Controversy in the Classroom: The Democratic Power of Discussion*, Efrog Newydd: Routledge: Taylor and Francis.
14. Kaufman, J. a Sternberg, R., (2010) *The Cambridge Handbook of Creativity*, Cambridge: Cambridge University Press.
15. McGregor, D. (2007) *Developing Thinking: Developing Learning a Guide to Thinking Skills in Education*, Lloegr: Open University Press.
16. Race, P. (2001) *A Briefing on Self, Peer and Group Assessment*, York: Race Learning and Teaching Support Network.
17. Robinson, K. a Aronica, L., (2015) *Creative Schools*, Prydain: Penguin Books.
18. Rudsberg, K., Otsman, L. a Ostman, E., (2016), *Students' meaning making in classroom discussion: the importance of peer interaction*, Cultural Studies of Science Education; Dordrecht, cyf. 12, arg. 3, tud. 709-738.
19. Sattes, B. a Walsh, J. (2015) *Questioning for Classroom Discussion: Purposeful Speaking, Engaged Listening*, Deep Thinking, Virginia: ASCD.
20. Weisenberg, R. (1997), *Appropriate technology for the classroom - Using "Post-It Notes" as an active learning tool*, Journal of College Science Teaching, Washington, cyf. 26, arg. 5, tud. 339-344.